**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

4 Rhagfyr 2017

Annwyl Lesley

**Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017**

Ystyriodd y Pwyllgor ymateb y llywodraeth i'r pwyntiau adrodd technegol a wnaed mewn perthynas â'r gorchymyn uchod yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2017.

O ran pwynt 3 eich ymateb, byddem yn croesawu dadansoddiad llawnach o gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros effaith ôl-weithredol y gorchymyn. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor yn croesawu dadansoddiad yn seiliedig ar y prawf sefydledig ar gyfer cyfiawnhad a bennwyd gan y Goruchaf Lys, hy y prawf pedwar pwynt sy'n cynnwys y cwestiynau canlynol:

- A oes gan y mesur nod cyfreithlon sy'n ddigonol i gyfiawnhau cyfyngiad hawl sylfaenol?
- A yw'r mesur wedi'i gysylltu yn rhesymegol â'r nod hwnnw?
- A ellid defnyddio mesur llai ymwthiol?
- A oes cydbwysedd teg wedi cael ei daro rhwng hawliau'r unigolyn a buddiannau'r gymuned?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan,

Yn gywir

**David Melding AC**
Cadeirydd Dros Dro

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565